Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Nythgywion**

**5 St. Andrews Crescent**
**Caerdydd**
**CF10 3DA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/09/2023

# Ynglŷn â Meithrinfa Nythgywion

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Nestlings' Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 46 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Rhagfyr 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn cynnig 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i chwarae a dysgu ac i feithrin eu hannibyniaeth drwy amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd chwarae.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn angerddol am eu rolau. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol. Mae'r staff yn amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar. Maent yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant drwy amrywiaeth o weithgareddau a gynlluniwyd yn seiliedig ar ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant. Mae'r staff yn cadw cofnodion effeithiol o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn groesawgar. Mae amrywiaeth dda o deganau a chyfarpar dan do ac yn yr awyr agored yn hyrwyddo chwarae i'r plant. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel drwy gwblhau asesiadau risg a gwiriadau dyddiol yn gyson.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn frwdfrydig ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n adlewyrchu'r gofal a roddir. Maent yn hunanwerthuso'n effeithiol i nodi gwelliannau a'u rhoi ar waith. Mae'r rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am brofiadau a datblygiad eu plentyn.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn cael llawer o ddewisiadau a chyfleoedd i wneud penderfyniadau am sut maent am dreulio eu hamser yn y feithrinfa. Maent yn dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a difyr. Gwelsom y plant yn mwynhau chwarae â cheir, offerynnau cerdd a reis a ffigurau chwarae byd bach. Mae'r plant yn mynegi eu meddyliau a'u syniadau yn dda, gan eu bod yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn dangos diddordeb. Er enghraifft, clywsom un plentyn yn dweud wrth aelod o'r staff yn gyffrous y byddai'n mynd am dro drwy'r dref ar ôl ei sesiwn yn y feithrinfa, ac yn mynd ar y "*merry go round, the pink one*."

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn mwynhau bod yng nghwmni'r plant eraill ac yn meithrin cyfeillgarwch sy'n eu helpu i deimlo'n fodlon. Mae'r plant yn adnabod y staff a'r arferion yn dda, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r staff yn eu hannog a'u canmol wrth iddynt ddysgu sgiliau newydd, sy'n rhoi'r hyder iddynt chwarae a dysgu.

Mae'r plant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chwarae'n hapus ochr yn ochr â'i gilydd neu gyda'i gilydd. Cawsom groeso cynnes gan y plant, a oedd yn gyffrous i siarad â ni ac i ddangos eu teganau. Dangosodd un plentyn yr hyn roedd yn ei wneud yn yr ardal greadigol. Dywedodd wrthym yn gyffrous, *"look at mine!"* , gan wenu'n falch wrth edrych ar yr hyn roedd wedi ei greu yn ystod y gweithgaredd blawd. Mae'r plant yn dysgu i barchu ei gilydd a'r adnoddau, gan ddysgu rhannu a defnyddio cyfarpar yn briodol.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu yn fawr iawn. Maent yn cael budd o amrywiaeth o adnoddau chwarae a dysgu ym mhob ystafell. Caiff y plant eu cymell i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i gynnal eu chwarae am gyfnodau sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Gwelsom ddau o'r plant hŷn yn chwarae yn yr awyr agored lle roeddent yn annog ei gilydd i neidio'n ofalus oddi ar ddarn o gyfarpar. Roeddent yn gwenu ac yn chwerthin, a oedd yn dangos eu bod yn amlwg yn mwynhau'r hyn roeddent yn ei wneud.

Mae'r plant yn meithrin amrywiaeth o sgiliau wrth chwarae. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i fod yn annibynnol. Mae'r plant iau yn cael eu hannog i fwydo eu hunain, gyda'r staff yn cynnig cymorth lle bo angen. Mae'r plant hŷn yn arllwys eu diodydd eu hunain ac yn helpu i glirio eu platiau yn ystod amser bwyd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol os bydd ganddynt bryderon am blentyn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus wrth ddweud wrthym ble a sut y byddent yn cyfeirio unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am blentyn neu aelod o'r staff. Mae amrywiaeth o fwydydd iach ar gael yn ystod amser bwyd ac mae dŵr yfed ar gael drwy'r dydd. Fodd bynnag, nid yw amser bwyd bob amser yn arfer cymdeithasol. Er enghraifft, gall y staff weithiau ymgolli mewn dyletswyddau yn yr ystafelloedd yn hytrach na chanolbwyntio ar sgwrsio â'r plant. Mae gwybodaeth am alergeddau a chyflyrau meddygol y plant ar gael i bob aelod o'r staff, ac mae systemau ar waith i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion deietegol y plant yn ddiogel. Mae'r staff yn cadw cofnod manwl o bob damwain ac yn rhannu'r wybodaeth hon â rhieni, drwy ap electronig. Mae ymarferion tân rheolaidd yn sicrhau bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel.

Mae'r staff yn garedig ac yn gyfeillgar tuag at y plant. Maent yn ymatebol ac yn fagwrus, sy'n golygu bod y plant yn hyderus i fynd atynt. Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi a hyrwyddo ymddygiad cymdeithasol y plant, gan fod yn ystyriol o'u hoedran a'u cam datblygu. Mae polisi rheoli ymddygiad cynhwysfawr ar waith, sy'n hyrwyddo strategaethau cadarnhaol. Mae'r staff yn rhoi'r strategaethau hyn ar waith yn fedrus, gan ddefnyddio iaith gadarnhaol i atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Mae'r staff yn dangos esiampl dda; maent yn annog y plant i ymddwyn yn foesgar ac yn atgoffa'r plant i ofyn a diolch yn gwrtais.

Mae'r staff yn cefnogi'r plant i ddysgu a datblygu yn effeithiol. Maent yn arsylwi ar y plant yn chwarae ac yn dysgu yn rheolaidd er mwyn olrhain eu cynnydd. Mae hyn yn eu helpu i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol i hyrwyddo camau dysgu a datblygu nesaf y plant. Rhoddir diweddariadau rheolaidd i'r rhieni am gynnydd a datblygiad eu plentyn. Clywsom ddefnydd achlysurol o'r Gymraeg yn rheolaidd ym mhob rhan o'r feithrinfa. Er enghraifft, clywsom y staff yn defnyddio ymadroddion megis “*amser tŷ bach, amser snac, da iawn, arbennig o dda*.”

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r fynedfa yn ddiogel ac mae'r drysau wedi'u cloi, sy'n sicrhau mai dim ond aelodau o'r staff all ganiatáu i bobl ddod i mewn. Mae'r rheolwyr yn adolygu'r asesiadau risg ar gyfer pob ardal o'r lleoliad ac unrhyw deithiau a gynhelir yn rheolaidd. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol cynhwysfawr o'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant a'u dileu. Mae cofrestrau amseroedd cyrraedd a gadael y staff a'r plant yn gyflawn. Mae'r tystysgrifau yn gyfredol, gan gynnwys dogfennau gwasanaethu'r boeler nwy, profion trydanol, a gwiriadau diogelwch tân.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae'r lleoliad wedi'i addurno â lliwiau tawel a niwtral. Mae'r staff yn trefnu'r ystafelloedd chwarae yn effeithiol, gan hyrwyddo pob agwedd ar ddatblygiad y plant, ac mae amrywiaeth dda o adnoddau ar gael, gan gynnwys eitemau bywyd go iawn, doliau aml-ddiwylliannol, a llyfrau. Mae arddangosiadau ar y waliau yn dathlu gwaith celf y plant a'u cyflawniadau, gan roi ymdeimlad o falchder a pherthyn iddynt. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys amrywiaeth o gyfarpar sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae ardal â chanopi yn cynnig cysgodfa a chysgod i chwarae ym mhob tywydd. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored, gan 'goginio' yn y gegin fwd a dringo amrywiaeth o gyfarpar.

Caiff y teganau a'r cyfarpar eu glanhau'n rheolaidd, ac mae'r adnoddau o ansawdd da. Mae'r lleoliad yn cynnwys dodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau maint plant a lle storio teganau lefel isel. Mae nifer priodol o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân ac yn ffres.  Mae sebon a chyfleusterau sychu dwylo ar gael yn hawdd i gefnogi annibyniaeth y plant wrth olchi eu dwylo.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fedrus ac yn meddu ar weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y feithrinfa. Maent yn rheoli'r lleoliad yn unol â'r rheoliadau gofal plant a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Ceir datganiad o ddiben clir, sy'n rhoi darlun cywir o'r ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith ac mae'r staff yn eu rhoi ar waith yn effeithiol.

Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal amgylchedd trefnus ac mae'r holl ddogfennau wedi'u trefnu'n dda ac yn hawdd cael gafael arnynt. Mae ffeiliau'r staff o ansawdd da ac mae'r holl wiriadau perthnasol wedi'u cwblhau i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Caiff pob aelod o'r staff sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol, sy'n eu galluogi i nodi eu cryfderau a meysydd i'w datblygu. Aethpwyd i'r afael a'r ddau faes i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â hyn, ac maent bellach wedi'u cau. Mae digon o staff cymwysedig a phrofiadol i wneud yn siŵr bod y plant yn cael gofal da bob amser. Mae'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal yn ystyried safbwyntiau'r rhieni, y plant a'r staff, ac yn nodi meysydd i'w datblygu.

Mae system glir ar waith i sicrhau bod tystysgrifau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfredol. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf ac mae'r staff yn cael cyfleoedd da i gael hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen. Dywedodd y staff wrthym fod y tîm rheoli yn gefnogol ac yn ymatebol i'w syniadau.

Mae'r lleoliad wedi meithrin cydberthnasau da â'r rhieni. Mae'r rhieni'n cael adborth rheolaidd am gynnydd eu plentyn yn ogystal â lluniau ohono'n chwarae yn ystod y dydd, drwy ap digidol. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus â'r gofal mae eu plentyn yn ei gael yn y lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 27 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod digon o staff i ddarparu gofal i'r plant. Mae angen iddo sicrhau bod digon o staff ar gael i ofalu am y plant. | Cyflawnwyd |
| 28 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y dogfennau gofynnol yn cael eu casglu cyn i aelodau o staff ddechrau eu cyflogaeth. Mae angen iddo sicrhau bod yr holl ddogfennau gofynnol yn cael eu casglu cyn i bob aelod o staff ddechrau ei gyflogaeth. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Ystyried sut y gall amser bwyd fod yn arfer mwy cymdeithasol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/11/2023